# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 12/09/2024 i'w hateb ar 17/09/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Buffy Williams** *Rhondda*

1 OQ61541 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar y warant i bobl ifanc?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

2 OQ61501 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am effaith toriadau posibl i wariant gan Lywodraeth y DU ar drigolion Gorllewin De Cymru?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

3 OQ61507 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU ynghylch sut y bydd Ynni Prydain Fawr o fudd i Ganolbarth a Gorllewin Cymru?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

4 OQ61515 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd?

**Vaughan Gething** *De Caerdydd a Phenarth*

5 OQ61542 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygiad arfaethedig Parcffordd Caerdydd yn Llaneirwg?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

6 OQ61498 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar gamau Llywodraeth Cymru i wella ansawdd dŵr mewn afonydd?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OQ61532 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau y mae llifogydd yn effeithio arnynt?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

8

## OQ61491 (e)

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau iechyd ym Mhreseli Sir Benfro?

**Hefin David** *Caerffili*

9

## OQ61490 (e) Tynnwyd yn ôl

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i dreftadaeth genedlaethol Cymru?

**Joel James** *Canol De Cymru*

10

## OQ61499 (e)

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â marwolaethau sy'n gysylltiedig ag opioid yng Nghymru?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

11

## OQ61524 (e)

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ynghylch colli banciau o'r stryd fawr wledig?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

12

## OQ61493 (e)

Yn sgil penderfyniad Llywodraeth y DU i gael gwared ar lwfans tanwydd y gaeaf, pa effaith y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd hyn yn ei chael ar bensiynwyr yng Nghymru?